

Rhif: WG33631



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd)

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2018

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd)

Cynulleidfa	Byrddau Iechyd Lleol GIG Cymru; Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru; Cynghorau Iechyd Cymuned; Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru; Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG; Gofal Cymdeithasol Cymru; y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol; y Cyngor Deintyddol Cyffredinol; y Cyngor Meddygol Cyffredinol; y Cyngor Optegol Cyffredinol; y Cyngor Osteopathig Cyffredinol; y Cyngor Fferyllol Cyffredinol; y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal; yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol; y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; pawb arall a ymatebodd i'r ymgynghoriad.
Trosolwg	Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Reoliadau drafft i bennu Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector Iechyd.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i: Is-adran y Gymraeg Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 0300 0604400 e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru
Copiâu ychwanegol	Mae copi o'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynggori
Dogfennau cysylltiedig	<i>Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd)</i> (2016) https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/safonau-gymraeg-gwella-gwasanaethau-sector-iechyd-i-siaradwyr-cymraeg

Cynnwys

Cefndir	2
Yr ymatebion	3
Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr	15

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru'n paratoi Safonau'r Gymraeg ('y Safonau') dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'), sy'n rhoi hawliau gorfodadwy i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar y Rheoliadau drafft i bennu Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector iechyd. Roedd y Rheoliadau drafft hynny'n ceisio galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, Cynghorau Iechyd Cymuned, Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ac Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Roedd y Rheoliadau drafft hefyd yn ceisio diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) drwy gynnwys y cyrff canlynol yn Rheoliadau Rhif 4: Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru bellach), y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol, y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft rhwng 14 Gorffennaf a 14 Hydref 2016. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys 13 o gwestiynau a osodwyd mewn dogfen profforma gyda ffurflen ar-lein er hwylustod. Roedd y cwestiynau'n cynnig dewis o atebion *cytuno* neu *anghytuno* ac yna'n rhoi lle ar gyfer sylwadau.

Daeth cyfanswm o 88 ymateb i law naill ai drwy'r holiadur, rhai wedi'u hategu gan naratif manwl, neu drwy lythyr. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am gael cadw'u hymatebion yn ddi-enw. Defnyddiodd 19 o'r ymatebwyr lythyr safonol a baratowyd gan Gymdeithas yr Iaith. Hefyd cyfrannwyd 46 ymateb dienw mewn dau gyfarfod cyhoeddus yng Nghaernarfon ac yn Abertawe. Daeth deiseb wedi'i pharatoi gan Gymdeithas yr Iaith i law, wedi'i llofnodi gan 759 o unigolion, yn canolbwyntio ar y defnydd o'r Gymraeg mewn gofal sylfaenol.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r byrddau Iechyd Lleol a'r ymddiriedolaethau, y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned, cyrff rheoleiddio gofal iechyd, colegau brenhinol, cyrff proffesiynol a Chymdeithas yr Iaith.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law. Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn. Mae eich barn yn werthfawr, ac fe fydd eich sylwadau'n cael eu hystyried wrth ddrafftio fersiwn derfynol y Rheoliadau. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Yr ymatebion

Mae'r adran hon yn adlewyrchu'r sylwadau a ddaeth i law yn yr holiadur profforma, llythyron gan unigolion a sefydliadau, ymatebion naratif manwl a sylwadau a wnaed mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r ffigyrau ymateb i gwestiynau unigol wedi'i seilio ar y nifer o unigolion wnaeth ddewis ateb y cwestiynau yn holiadur safonol yr ymgynghoriad. Wrth ddod i benderfyniad ystyriwyd yr holl ymatebion dderbyniwyd ymhob fformat.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno bod y diffiniadau o ymgynghoriad clinigol a darpariaeth iechyd yn eglur ac yn ddealladwy?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	16	11
Canran	59%	41%

O'r rhai a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn, dywedodd y mwyafrif bod y diffiniadau o ymgynghoriad clinigol a darpariaeth iechyd yn eglur ac yn ddealladwy. Roedd y pryderon a godwyd ynghylch eglurder diffiniadau a'r perygl o'u dehongli mewn ffyrdd gwahanol.

Roedd pryder arbennig nad oedd y diffiniad o ymgynghoriad clinigol yn cydnabod y gwahanol ddulliau o ryngweithio rhwng corff ac unigolyn, megis dros y ffôn, ymweliadau â'r cartref a chyswllt fideo. Roedd eraill yn pryderu nad oedd yn cynnwys atal, sgrinio ac ymchwilio.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch eglurder, mae geiriad rhai diffiniadau a Rheoliadau wedi'u newid;

- Mae'r diffiniad o 'ddarpariaeth iechyd' wedi'i ddiwygio er mwyn iddo gyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- Cadarnhau bod Rheoliad 1(9) yn y Rheoliadau drafft, bellach Rheoliad 1(8) yn y Rheoliadau arfaethedig, yn eithrio ysbytai, wardiau a chlinigau preifat yng Nghymru a phob ysbyty y tu allan i Gymru. Mae Rheoliad 1(10) yn ei gwneud yn glir bod yr eithriad hefyd yn cynnwys gwasanaethau cartref gofal.
- Mae'r Rheoliad hwn bellach yn manylu ynghylch eithrio darparwyr gofal sylfaenol annibynnol.
- Mae'r diffiniad o 'unigolyn' wedi'i ddiwygio er mwyn gwneud yn glir bod unigolyn sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru ac sy'n gweithredu fel unigolyn yn medru manteisio ar y safonau.

Credwn fod 'rhyngweithio ynghylch darpariaeth iechyd' wrth ddiffinio ymgynghoriad clinigol yn cynnwys rhyngweithio dros y ffôn a thrwy gyswllt fideo. Felly nid ydym yn cynnig diwygio'r diffiniad o 'ymgynghoriad clinigol'. Rydym hefyd yn credu pan fo unigolyn yn defnyddio gwasanaeth sgrinio neu frechu, bod y rhyngweithio hwn hefyd yn ymgynghoriad clinigol.

Gweler yr ymateb i Gwestiwn 2 am newidiadau i'r Rheoliadau drafft mewn perthynas ag ymgynghoriadau clinigol a Chwestiwn 11 am newidiadau i'r ffordd y caiff gofal sylfaenol ei drin.

Cwestiwn 2: A yw safon arfaethedig 25 (ymgyngoriad clinigol) yn ymarferol yn yr amrywiaeth o senarios a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	10	17
Canran	37%	63%

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn yn anghytuno â'r safon oedd yn cael ei gynnig.

Er bod pryder ynghylch y safon arfaethedig, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod, yn gyffredinol, bod medru darparu ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg yn fanteisiol i gleifion, ac y gallai'r manteision fod yn fwy i blant ifanc a'r henoed. Hefyd cydnabuwyd bod cyfathrebu'n uniongyrchol gyda chlaf yn ei famiaith yn medru helpu meddyg i gyrraedd gwell diagnosis. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod y safon yn annog defnyddio sgiliau Cymraeg y gweithlu yn hytrach na dibynnu ar gyfieithu, ond roedd rhai yn rhybuddio rhag cynyddu llwyth gwaith staff sy'n siarad Cymraeg. Tynnwyd sylw at enghreifftiau o arfer da presennol yn yr ymatebion.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ystyried bod gofynion safon 25 y tu hwnt i'r hyn y gellid ei gyrraedd ar hyn o bryd, ac nad oedd modd ei chyflawni'n gyffredinol nac yn gyson. Y prif resymau a roddwyd am hyn oedd;

- Prinder staff sy'n siarad Cymraeg o fewn y gweithlu clinigol, a'r ffaith nad oes digon o hyder gan rai aelodau staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Heriau recriwtio staff yn benodol rhai â sgiliau Cymraeg.
- Pryder y gallai darparu ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg arwain at oedi wrth drefnu apwyntiadau a thriniaethau.
- Bydd prinder siaradwyr Cymraeg yn arwain at fwy o ddefnydd o wasanaethau cyfieithu a allai olygu treulio mwy o amser mewn ymgynghoriadau, gan effeithio ar allu'r corff i gyflawni targedau statudol eraill, megis amseroedd aros.
- Priodoldeb cael person arall yn bresennol yn yr ymgynghoriad.
- A fyddai cleifion yn dewis cael cyfieithydd yn bresennol yn yr ymgynghoriad.
- Pryderon ynghylch a oes digon o gyfieithwyr ar gael sy'n medru gweithio mewn sefyllfaoedd clinigol.
- Gallai dewis y claf o eiriau a phwyslais yr hyn sy'n cael ei ddweud gael ei gollu wrth gyfieithu, sy'n cael ei ystyried fel risg clinigol.
- Ymarferoldeb cadw at y Safonau yn yr holl amgylchiadau, yn arbennig clinigau cleifion allanol sy'n gweld nifer fawr o gleifion a meddyginiaeth frys pan fo'n hanfodol bwysig darparu gofal yn brydlon.
- Ymarferoldeb trefnu cymorth cyfrwng Cymraeg ym mhob achos o ryngweithio clinigol y claf ar ymweliad ag ysbyty.
- A yw'r systemau TG yn ddigon soffistigedig i drosglwyddo gwybodaeth am ddewis iaith y claf rhwng adrannau fel ei fod yn hygyrch i'r holl staff.
- Cost gweithredu'r safon.
- Mae gweithwyr proffesiynol gofal iechyd wedi'u rheoleiddio, ac roedd rhai ymatebion yn nodi na ddylai gweithwyr proffesiynol ddirprwyo cyfrifoldeb dros sicrhau bod y claf wedi deall i rywun arall. Roedd rhai ymatebion yn nodi bod hyn yn arbennig o

berthnasol mewn sefyllfaoedd pan fo gweithwyr proffesiynol yn ceisio cydsyniad y claf.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r pryderon a fynegwyd gan y cyrff y gellid gofyn iddynt gydymffurfio â'r Safonau yn dangos yn glir na fyddai modd iddynt gydymffurfio â'r safon hon ar bob achlysur.

Ar sail y dystiolaeth hon, ac yn arbennig y pryderon ynghylch prinder sgiliau Cymraeg ymysg y gweithlu, rydym o'r farn na fyddai'n rhesymol nac yn gymesur pennu'r safon gan ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw un o'r cyrff yn medru cydymffurfio'n gyson. Felly rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu amgen sy'n adeiladu ar arfer da presennol ac yn rhoi sylfaen ddeddfwriaethol a ellir ei orfodi iddo. Bydd yn helpu'r cyrff i gynllunio a datblygu eu gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg. Bydd y dull gweithredu hwn yn sicrhau gwell canlyniad yn y tymor hir i gleifion Cymraeg eu hiaith gan y bydd y cyrff yn gweithio tuag at ddarparu'r ymgynghoriad drwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na dim ond darparu cefnogaeth Gymraeg.

Mae safon 25 drafft wedi'i ddileu a'r safonau newydd canlynol wedi'u cynnig.

Safon sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau baratoi a chyhoeddi cynllun 5 mlynedd yn gosod sut y byddant yn gweithio tuag at fedru cynnig ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff gyhoeddi adroddiad ar ddiwedd blynnyddoedd 3 a 5 i ddangos i ba raddau maent wedi cydymffurfio â'r cynllun. Bydd y dull gweithredu hwn yn darparu fframwaith atebol a fydd yn helpu'r cyrff i ddatblygu eu gallu i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Drafftiwyd safon arall sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau ddatblygu system a fydd yn nodi dewis iaith cleifion mewnol (cleifion sy'n aros yn yr ysbyty neu'n debyg o aros yn yr ysbyty am un noson o leiaf). Bydd hyn yn golygu bod yr holl staff yn ymwybodol o ddewis iaith y claf, a chredwn bydd hyn yn annog mwy o ryngweithio gyda'r claf drwy'r Gymraeg a fydd yn ei dro yn gwella profiad y claf yn yr ysbyty.

I godi hyder y siaradwyr Cymraeg presennol, mae safon newydd wedi'i drafftio a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff ddarparu cyfleoedd i weithwyr gael hyfforddiant i wella eu sgiliau iaith, gyda'r nod o fod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae'r safonau newydd hyn ynghyd â safonau eraill arfaethedig fel safon 96, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff asesu sgiliau iaith eu gweithwyr, yn helpu cyrff i drefnu eu gweithlu i ddiwallu'r galw am wasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Cwestiwn 3: A yw cadw cofnod o ddewis iaith unigolyn a gweithredu'n unol â hynny yn ymarferol?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	15	14
Canran	52	48

Roedd mwyafrif bach o'r ymatebwyr a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn yn cytuno ei bod yn ymarferol cadw cofnod a gweithredu yn unol â dewis iaith yr unigolyn.

Roedd nifer o'r sylwadau'n adlewyrchu'r rhai a ddaeth i law ar gyfer cwestiwn 2, ac yn canolbwyntio ar heriau medru gweithredu ar ddewis iaith unigolyn ar bob achlysur. Roedd pryder ynghylch faint o staff sy'n siarad Cymraeg, gallu systemau TG a phryderon ynghylch defnyddio cyfieithwyr mewn sefyllfaoedd clinigol.

Ymateb Llywodraeth Cymru;

Bydd dileu'r safon 25 drafft, fel trafodwyd uchod, yn golygu nad oes dyletswydd ar gyrrff i gofnodi dewis iaith yr unigolyn a darparu cymorth cyfrwng Cymraeg mewn ymgynghoriadau clinigol. Dylid nodi bod gofyniad o hyd i gofnodi dewis iaith unigolyn ar gyfer gohebiaeth (safon 2 arfaethedig) a galwadau ffôn (safon 19 arfaethedig).

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r cysyniad o gymorth Cymraeg mewn ymgynghoriadau clinigol?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	23	3
Canran	88	12

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cysyniad o gymorth Cymraeg mewn ymgynghoriadau clinigol.

Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r cysyniad, roedd y cyrff yn mynegi pryder ynghylch eu gallu a pha mor ymarferol y byddai i ddarparu'r cymorth hwn yn gyson ar bob achlysur. Mae'r pryderon yn adlewyrchu'r rhai a fynegwyd mewn ymateb i gwestiwn 2.

Ymateb Llywodraeth Cymru;

Mae safon 25 drafft wedi'i ddileu, felly ni fydd dyletswydd i ddarparu cymorth cyfrwng Cymraeg mewn ymgynghoriadau clinigol. Eglurwyd y rhesymau yng nghwestiwn 2.

Credwn y bydd y safonau arfaethedig 23, 23A, 24, 110 a 110A yn helpu'r cyrff i ddatblygu a gwella'u gallu i ddarparu ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg. Dros amser, y nod yw gweld y safonau hyn yn arwain at gynnal ymgynghoriadau clinigol cyfrwng Cymraeg tu hwnt i'r hyn a gafodd ei gynnig yn y Rheoliadau drafft (hynny yw darparu cefnogaeth cyfrwng Cymraeg. Gweler yr ymateb i gwestiwn 2 am ddadansoddiad llawn).

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno bod y diffiniadau o gynadleddau achos a darpariaeth yn gysylltiedig ag iechyd yn eglur ac yn ddealladwy?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	16	8
Canran	67	33

O'r rhai a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn dweud bod y diffiniadau'n eglur ac yn ddealladwy.

Er bod y mwyafrif yn cytuno â'r diffiniadau a ddefnyddiwyd, roedd eraill yn gofyn am fwy o enghreifftiau o'r mathau o gyfarfodydd sy'n syrthio o fewn y diffiniad a chadarnhad a fyddai cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaeth yn dod o dan y diffiniad hwn. Awgrymwyd hefyd y dylid ehangu'r diffiniad er mwyn i ofalwyr a theulu'r claf fedru gofyn am wasanaeth cyfieithu.

Ymateb Llywodraeth Cymru;

Gan fod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y diffiniadau'n glir ac yn gynhwysfawr, nid ydym yn cynnig diwygio'r diffiniadau ac mae'r ffocws yn parhau ar anghenion y claf unigol. Gall Comisiynydd y Gymraeg ddewis rhoi sylw i bryderon am fathau penodol o gyfarfodydd mewn Hysbysiadau Cydymffurfio.

Gweler hefyd yr ymateb i gwestiwn 7 ynghylch y rhestr o weithwyr proffesiynol gofal iechyd yn y Rheoliadau drafft.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylid ymdrin â chynadleddau achos mewn ffordd wahanol i ymgynghoriadau clinigol a chyfarfodydd eraill?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	17	8
Canran	68	32

O'r rhai a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno y dylid eu trin yn wahanol. Mynegwyd rhywfaint o bryder y gallai trefnu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer cynadleddau achos arwain at oedi a fyddai'n niweidiol i'r claf. Eto, codwyd pryderon y gellid colli pwyslais yr hyn sy'n cael ei ddweud wrth gyfieithu.

Ymateb Llywodraeth Cymru;

Gan fod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylid trin cynadleddau achos yn wahanol i ymgynghoriadau clinigol neu gyfarfodydd eraill, ein bwriad yw symud ymlaen â safonau

gwahanol ar gyfer cynadleddau achos. Mae'n safbwynt mewn perthynas ag ymgynghoriadau clinigol yn cael ei egluro yn yr ymateb i gwestiwn 2. Fodd bynnag, i roi sylw i bryderon y byddai trefnu cyfieithu dwy ffordd (o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg) yn arwain at oedi mewn cynadleddau achos, rydym wedi diwygio'r safon arfaethedig er mwyn dal y cynadleddau achos sy'n cael eu trefnu o leiaf bum diwrnod gwaith o flaen llaw yn unig.

Cwestiwn 7: Ydy'r rhestr o weithwyr iechyd proffesiynol ym mharagraff 38 yn cynnwys pawb a allai fod yn rhan o gynhadledd achos neu gyfarfod nad yw ond yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	10	13
Canran	43	57

O'r rhai a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn anghytuno bod y rhestr yn cynnwys pawb a allai fod yn rhan o gynhadledd achos neu gyfarfod yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol.

Y prif bryder a fynegwyd oedd nad oedd y rhestr yn gynhwysfawr, ac nad oedd yn dal yr holl swyddogaethau a allai fod yn rhan o gyfarfod gweithwyr iechyd proffesiynol. Hefyd roedd pryder na fyddai rhestru teitlau swyddogaethau yn y Rheoliadau yn cynnig digon o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau mewn swyddogaethau a theitlau swyddi dros amser.

Ymateb Llywodraeth Cymru;

Gan nad oedd gwrthwynebiad i eithrio'r mathau hyn o gyfarfodydd, ein bwriad yw cadw'r eithriad. Fodd bynnag, er mwyn rhoi sylw i bryderon am y cyfyngiadau yn sgil rhestru swyddogaethau, rydym wedi diwygio'r eithriad fel nad yw swyddogaethau a theitlau swyddi penodol bellach yn cael eu cynnwys. Mae'r cynnig diwygiedig yn canolbwyntio ar y math o gyfarfod yn hytrach na phwy sy'n bresennol yn y cyfarfod.

Gweler hefyd yr ymateb i gwestiwn 5.

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r farn y dylai unigolyn allu disgwyl i'r corff sy'n darparu neu'n cynnal yr ymgynghoriad clinigol neu'r gynhadledd achos gydymffurfio â'r safonau a osodwyd arno (os oes rhai)?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	19	8
Canran	70	30

O'r rhai a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno gyda'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i'r corff sy'n cynnal yr ymgynghoriad clinigol neu gynhadledd achos gydymffurfio â safonau perthnasol.

Roedd nifer o'r pryderon a godwyd yn adlewyrchu'r rhai a ddaeth i law mewn ymateb i gwestiwn 2. Yn eu plith roedd cost eu rhoi ar waith, y perygl o gyfaddawdu neu oedi yng

ngofal y cleifion, codi disgwyliadau cleifion, a diffyg gallu i gynnal ymgynghoriadau clinigol a chynadleddau achos cyfrwng Cymraeg.

Ymateb Llywodraeth Cymru;

Credwn y bydd y newidiadau arfaethedig i'r safonau yn ymwneud ag ymgynghoriadau clinigol a chynadleddau achos (gweler cwestiynau 2, 5, 6 a 7) yn rhoi sylw i'r pryderon a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Bydd y newidiadau hyn yn golygu na fydd gofyn i gorff ddarparu cefnogaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod ymgynghoriad clinigol a dim ond darparu gwasanaeth cyfieithu mewn cynhadledd achos os yw'n cael ei drefnu o leiaf 5 diwrnod gwaith o flaen llaw.

Fodd bynnag, bydd gofyn i'r corff gydymffurfio â safonau eraill mewn perthynas ag ymgynghoriadau clinigol (os bydd y Comisiynydd yn eu gosod). Er enghraifft, bydd rhaid i ohebiaeth a dogfennau yn ymwneud ag ymgynghoriadau clinigol gydymffurfio â'r safonau gohebiaeth a dogfennau, yn ogystal â'r safonau newydd i nodi dewis iaith cleifion mewnol.

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno y dylid trin darpariaeth gofal iechyd mewn carchardai yn yr un modd â phob gofal iechyd eraill?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	26	0
Canran	100	0

Roedd pawb a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig.

Ymateb Llywodraeth Cymru;

Gan fod cefnogaeth unfrydol i'r dull gweithredu hwn, rydym yn cynnig parhau gyda'r polisi a fydd yn gwneud y Safonau'n berthnasol i ddarpariaeth gofal iechyd o fewn carchardai.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno â'r eithriadau arfaethedig a'r rhesymau a roddir?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	16	7
Canran	70	30

O'r rhai a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno gyda'r eithriadau arfaethedig.

Roedd y rhai oedd yn anghytuno yn gwrthwynebu

- eithrio ysbytai preifat, yn arbennig ysbytai preifat yng Nghymru sy'n cael eu contractio gan y GIG i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan,
- eithrio ysbytai y tu allan i Gymru gan y byddai anghenion unigolion am wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn parhau yr un fath â mewn ysbytai yng Nghymru,

- bod y safonau ond yn berthnasol i'r rhai sy'n byw fel rheol yng Nghymru. Roedd rhai o'r farn bod hyn yn camwahaniaethu,
- eithrio achosion brys - roedd rhai ymatebwyr yn dweud mai dyma, yn aml, yw'r adeg pan fo anghenion unigolion am wasanaethau yn eu dewis iaith yn fwyaf amlwg. Roedd ymatebydd arall yn credu ei bod yn bosib i gyrff gynllunio'u gweithlu i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn ystod argyfwng yn yr un ffordd ag y mae'n rhaid cynllunio i ddarparu gwasanaethau eraill yn ystod argyfwng.
- eithrio ymchwil - mynegodd rhai ymatebwyr eu bod yn credu y gallai hyn arwain at eithrio siaradwyr Cymraeg o'r sampl ymchwil.

Ymateb Llywodraeth Cymru;

Rydym wedi ystyried y gwrthwynebiad i eithrio ysbytai preifat yng Nghymru. Yn 2015/16 fe gafodd llai na 2,500 o gleifion GIG Cymru eu trin mewn ysbytai preifat yng Nghymru a Lloegr, y mwyafrif ohonynt wedi'u trin mewn ysbyty preifat yng Nghymru. Gan mai dim ond tua 1% yw hyn o'r derbyniadau dewisol (hynny yw wedi'u cynllunio) i'r GIG yn 2015/16 ystyrir y byddai costau gweithredu safonau'r Gymraeg yn gwrthbwysu unrhyw fanteision posib o osod safonau ar ysbytai preifat.

Rydym o'r farn nad yw'n rhesymol nac yn gymesur i'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r safonau hyn gael eu dal yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn ysbytai tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol, fel y rhai y tu allan i Gymru. Felly mae ysbytai y tu allan i Gymru'n parhau i gael eu heithrio.

Credwn, yn ymarferol, bod unigolion yn debyg o gael cynnig yr un lefel o wasanaethau cyfrwng Cymraeg wyneb yn wyneb mewn ysbyty neu glinig, ble bynnag y maent yn byw. Fodd bynnag, nid ydym yn ei gweld yn rhesymol gosod dyletswydd ar gyrff i gydymffurfio â'r safonau ar gyfer unigolion nad ydynt yn preswyllo fel rheol yng Nghymru. Felly rydym wedi dod i'r casgliad y dylid cadw'r eithriad hwn.

Rydym hefyd wedi dod i'r casgliad y dylid eithrio achosion brys o'r Rheoliadau. Mae hyn yn unol â'r dulliau gweithredu mewn Rheoliadau eraill sy'n pennu Safonau'r Gymraeg ar gyfer cyrff sydd weithiau'n darparu gwasanaethau mewn argyfwng. Bydd cyrff iechyd weithiau'n gweithio gydag asiantaethau eraill mewn argyfwng, mae'r eithriad hwn felly yn darparu dull gweithredu cyson. Er enghraifft, mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 sy'n pennu Safonau ar gyfer nifer o gyrff gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yn eithrio argyfyngau sy'n cael eu diffinio yn unol â'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 sy'n pennu Safonau'r Gymraeg ar gyfer yr heddlu ac awdurdodau tân hefyd yn eithrio argyfyngau (gweler paragraff 29 Atodlen 1). Mae'r eithriad hefyd yn berthnasol i argyfyngau sy'n digwydd y tu allan i ysbyty (Atodlen 1, rhan 3, paragraff 30 y Rheoliadau) gan nad ydym o'r farn y byddai'n rhesymol ac yn gymesur cydymffurfio â'r Safonau dan yr amgylchiadau hyn ar bob achlysur.

Rydym wedi dod i'r casgliad y dylid eithrio ymchwil o'r Rheoliadau. Mae byrddau iechyd lleol yn gweithio'n gynyddol mewn partneriaeth ar ymchwil a datblygu gyda Phrifysgolion sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) nad ydynt yn cwmpasu ymchwil. Am y rheswm hwnnw, mae'n bwysig sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer y ddau sector, ac rydym o'r farn y dylent gael yr un eithriad.

Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno y dylai gwasanaethau gofal sylfaenol wedi'u contractio a gwasanaethau o fath tebyg a ddarperir yn uniongyrchol gan fyrddau iechyd lleol gael eu trin yn yr un modd?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	20	5
Canran	80	20

O'r rhai a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig y dylai gwasanaethau gofal sylfaenol wedi'u contractio a gwasanaethau o fath tebyg a ddarperir yn uniongyrchol gan fyrddau iechyd lleol gael eu trin yn yr un modd.

Roedd y mwyafrif o'r rhai a wnaeth sylw yn credu y dylai fod yn ofynnol i bob math o ofal sylfaenol, sut bynnag mae'n cael ei ddarparu, gydymffurfio â'r safonau. Dadl yr ymatebwyr oedd y dylai lefel y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg fod yn gyson â'r rhai sy'n cael eu cynnig mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth iechyd, gan mai gofal sylfaenol yn aml yw'r cysylltiad cyntaf â'r gwasanaeth iechyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru;

Rydym wedi ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law am ofal sylfaenol ynghyd â'r ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd rydym wedi penderfynu mabwysiadu dull gweithredu amgen a fydd, yn ein barn ni, yn gwella lefel y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn gofal sylfaenol.

Mae'r Rheoliadau wedi'u diwygio fel eu bod bellach yn berthnasol i wasanaethau gofal sylfaenol sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan fyrddau iechyd lleol. Mae gan fyrddau iechyd lleol brofiad o ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg dan eu Cynlluniau Iaith, ac fe fydd modd iddynt adeiladu ar y profiad hwn i ehangu eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i ofal sylfaenol. Yn ddarostyngedig i hysbysiad cydymffurfio corff, bydd hyn yn golygu bod yr holl safonau'n berthnasol pan fo bwrdd iechyd lleol yn darparu gwasanaethau gofal sylfaenol ei hun ac eithrio safon 19 (corff yn gwneud galwadau ffôn). Bydd hyn yn darparu fframwaith cliriach i fyrddau iechyd lleol ddeall pa safonau sy'n berthnasol i'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.

Fel eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori, nid ydym o'r farn y byddai'n rhesymol gosod dyletswyddau ar fyrddau iechyd lleol a fyddai'n eu dal yn gyfrifol am fethiant ar ran un o'r darparwyr gofal sylfaenol annibynnol i gydymffurfio â'r safonau. Mae hynny gan nad oes ganddynt unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros y ffyrdd y mae darparwyr unigol yn darparu gwasanaethau. O ganlyniad, rydym yn ystyried mai'r ffordd fwyaf priodol o osod dyletswyddau Cymraeg ar y darparwyr annibynnol hyn yw drwy drefniadau dan gontract rhyngddynt a'r byrddau iechyd lleol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl gontractwyr yn gweithredu'n gyson, ac yn creu rhwymedigaethau contractiol rhwng byrddau iechyd lleol a'r darparwyr annibynnol y gall y bwrdd iechyd lleol eu gorfodi. Bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau trafod gyda'r sector i ddiwygio'r Rheoliadau sy'n llywodraethu'r trefniadau contractiol.

Gyda'i gilydd, rydym yn ystyried y bydd y dull gweithredu yn cyflwyno dyletswyddau ar y lefel gywir mewn ffordd resymol a chymesur.

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r safonau newydd arfaethedig sy'n gosod dyletswyddau ar fyrddau iechyd lleol o ran gwasanaethau gofal sylfaenol wedi'u contractio a'u darparu'n uniongyrchol?

	Cytuno	Anghytuno
Cyfanswm	20	7
Canran	74	26

O'r rhai a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig.

Yn gyffredinol roedd cefnogaeth i'r safonau drafft ar gyfer gofal sylfaenol (Safonau drafft 83-97) a oedd yn gosod dyletswyddau ar fyrddau iechyd lleol i ddarparu rhai gwasanaethau a chymorth cyfrwng Cymraeg i ddarparwyr gofal sylfaenol.

Er eu bod yn croesawu'r Safonau hyn, roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn mynd yn ddigon pell wrth sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y sector gofal sylfaenol. Mynegwyd y pryder hwn hefyd yn ymateb Comisiynydd y Gymraeg a'r ddeiseb a gyflwynwyd gan Gymdeithas yr Iaith. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y costau ychwanegol posib ar ddarparwyr gofal sylfaenol a byrddau iechyd lleol. Roedd eraill yn bryderus nad oedd yn ofynnol i ddarparwyr gofal sylfaenol gofnodi dewis iaith y claf, sy'n cael ei ystyried gan rai byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd lleol yn allweddol i wella gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl sector.

Ymateb Llywodraeth Cymru;

Fel y trafodwyd yng nghwestiwn 11, mae'r ffordd yr ydym yn cynnig ymdrin â gofal sylfaenol wedi newid.

O ganlyniad i'r newid hwn, bydd safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n cael eu gosod ar y bwrdd iechyd lleol hefyd yn berthnasol i'r gwasanaethau gofal sylfaenol y mae'n eu darparu'n uniongyrchol (ac eithrio Safon 19). Mae hyn yn golygu, er enghraifft, (yn ddarostyngedig i hysbysiad cydymffurfio corff) y bydd dyletswydd i gofnodi dewis iaith unigolion ar gyfer gohebiaeth (gan gynnwys gohebiaeth yn ymwneud â gofal sylfaenol) a fydd yn gwneud tipyn i roi sylw i'r sylwadau a ddaeth i law ynghylch darparwyr gofal sylfaenol yn cofnodi dewis iaith cleifion.

Mae'r dull gweithredu newydd hefyd yn golygu bod rhai o'r safonau drafft wedi'u dileu gan nad oes angen pennu safonau bellach am wefannau, apiau a chyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â gofal sylfaenol. Bydd y safonau cyffredinol ynghylch gwefannau, apiau, cyfryngau cymdeithasol ac ati yn berthnasol i ofal sylfaenol a ddarperir yn uniongyrchol gan y bwrdd iechyd lleol hefyd. Mae'r newidiadau hyn ac uno un safon yn golygu bod nifer y safonau wedi gostwng i bedwar.

Dyma'r safonau dan sylw:

- Bydd gofyn i fyrddau iechyd hyrwyddo ar eu gwefannau unrhyw ddarparwyr gofal sylfaenol sy'n barod i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol yn rhannol neu'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd byrddau iechyd yn darparu gwasanaeth cyfieithu ac yn hyrwyddo ei ddefnydd i ddarparwyr gofal sylfaenol er mwyn eu galluogi i gael cyfieithiadau Cymraeg o arwyddion neu hysbysladau sy'n cael eu harddangos mewn perthynas â'u

gwasanaethau.

- Bydd byrddau iechyd yn darparu bathodynau sy'n dangos bod darparwr gofal sylfaenol (neu aelod staff) yn siarad Cymraeg, ac yn hyrwyddo eu defnydd.
- Bydd gofyn i fyrddau iechyd ddarparu cyrsiau hyfforddi, gwybodaeth neu ddigwyddiadau wedi'u hanelu at ddarparwyr gofal sylfaenol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r ffyrdd y gall gael ei defnyddio yn y gweithle.

Nid ydym yn ystyried y bydd cydymffurfio â'r safonau hyn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn costau i fyrddau iechyd lleol. Dan eu Cynlluniau Iaith presennol, mae byrddau iechyd lleol eisoes yn cynhyrchu nifer o ddogfennau, ffurflenni ac arwyddion yn Gymraeg, ac mae'r Rheoliadau'n cynnig hyblygrwydd i fyrddau iechyd lleol benderfynu sut i roi gwybodaeth i ddarparwyr gofal sylfaenol er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dewis y ffordd fwyaf costeffeithiol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn darparu bathodynau 'Iaith Gwaith' yn rhad ac am ddim.

Nid yw'r Safonau'n gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol ac o ganlyniad nid ydym o'r farn y byddant yn ysgwyddo costau ychwanegol.

Cwestiwn 13: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau gofal sylfaenol?

Ymdriniwyd â'r ymatebion yn ymwneud â gofal sylfaenol yng nghwestiynau 11 ac 12.

Rheoleiddwyr Gofal Iechyd

Mae'r Rheoliadau drafft yn cynnig diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016 i gynnwys rheoleiddwyr gofal iechyd (gweler rheoliad 4 o'r Rheoliadau drafft). Mae'r rheoleiddwyr hyn yn cynnal cofrestr o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal, gosod safonau ymarfer, ymchwilio i gwynion a chynnal gwrandawriadau priodoldeb ymarfer. Y rheswm dros gynnig ychwanegu'r cyrff hyn i Rheoliadau Rhif 4 oedd eu bod yn rhannu nodweddion tebyg gyda thriwlysoedd Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg, sydd eisoes yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hynny.

Roedd nifer o'r rheoleiddwyr yn gwrthwynebu'r dull gweithredu hwn. Roedd eu dadl fel a ganlyn: er eu bod yn cynnal gwrandawriadau priodoldeb ymarfer, ym mhob agwedd arall roeddent yn wahanol i driwlysoedd Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg sy'n rhan o Rheoliadau (Rhif 4). Maent wedi'u hariannu'n llwyr gan y rhai sydd wedi cofrestru, ac yn cynnig gwasanaethau i'r rhai sydd wedi cofrestru ar draws y DU. Ar wahân i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol sydd â swyddfa fach yng Nghymru, nid oes gan un o'r sefydliadau eraill adeiladau yng Nghymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd Rheoliadau yn cael eu drafftio ar wahân i'r rheoleiddwyr gofal iechyd. Gan fod Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyngor Gofal Cymru gynt) ond yn gweithredu yng Nghymru, bydd yn cael ei gynnwys yn Rheoliadau (Rhif 4) fel y cynigiwyd yn wreiddiol.

Mae Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG hefyd wedi'i dynnu o'r Rheoliadau

arfaethedig. O gymharu â chyrrff eraill sy'n rhan o'r Rheoliadau, mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y mathau o wasanaethau sy'n cael eu darparu, a'r ffordd y mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu darparu. Nid oes ganddo unrhyw swyddfeydd yng Nghymru, ac mewn ffordd debyg i'r rheoleiddwyr gofal iechyd, mae'n gweithio ar draws y DU. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o ymdrin â'r corff hwn ac awdurdodau iechyd arbenigol eraill.

Symleiddio safonau

Er i rai groesawu lefel y manylder sy'n cael ei gynnig gan y safonau, thema glir a gododd o'r ymatebion oedd y canfyddiad bod y Rheoliadau'n gymhleth ac yn anodd eu deall oherwydd nifer y safonau. Roedd rhai sefydliadau'n teimlo y byddai hyn yn ei gwneud yn anodd i'w staff ddeall yr hyn oedd yn ddisgwyliedig ohonynt mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Yn dilyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i geisio diwygio Mesur y Gymraeg, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ym mis Mehefin 2016 mai un o'r nodau oedd edrych eto ar y broses ar gyfer gosod safonau, gan ei gwneud yn llai biwrocraidd. Cynhaliwyd galwad am dystiolaeth gyda phartneriaid a rhanddeiliaid rhwng 31 Ionawr a 31 Mawrth 2017, i helpu gyda'r gwaith hwn. Ateggodd rhai o'r ymatebwyr hynny y farn bod nifer y safonau'n eu cymhlethu ac yn golygu eu bod yn anodd i'r cyhoedd eu deall. Ceir dadansoddiad llawn o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym wedi adolygu'r holl safonau arfaethedig gan ystyried a oes cyfleoedd i uno neu ddileu safonau heb amharu ar nod y polisi o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Er bod rhai o'r safonau wedi'u cyfuno, pan fo hyn yn digwydd mae'r gofynion ar y cyrrff yn parhau heb newid.

Gwnaed newidiadau ym mhob un o'r pum atodlen i'r Rheoliadau, gyda'r nifer fwyaf sylweddol o newidiadau yn Atodlen 4 (Safonau Cadw Cofnodion) ac Atodlen 5 (Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol).

Mae'r newidiadau wedi arwain at 64 yn llai o Safonau i gyd.

Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr

Unigolion

Andy Smith
Caron Tucker
David Church
Dr Elin Walker Jones
Elda Lunera Hutapea
Ellen V Williams
Gwen Roberts
Huw Roberts
Ifor Evans
Karen Schneider
Llinos Haf Pritchard
Marian Hughes
Michael Parry
Mike Spencer-Harty
Owain Lewis
Rhiannon T
Richard Brown
Roger Pugh
Samantha James
Simon Morgan

Byrddau lechyd Lleol ac Awdurdodau lechyd

Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG
Bwrdd Addysgu lechyd Powys
Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans
Cymru

Sefydliadau a busnesau

Age Cymru
Coleg Brenhinol y Nyrsys
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Cydffederasiwn GIG Cymru
Cymdeithas Alzheimer
Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru
Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)
Cymdeithas Seicolegol Prydain
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
Cymdeithas yr Iaith
Cyngor Sir Ddinbych
Cytun - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Dyfodol i'r Iaith
Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Llythyr safonol gan Gymdeithas yr Iaith

Anthony Evans
Carys Lloyd
Catrin Dafydd
Christopher Lewin
Dorothy Williams
Dr Emyr Humphreys
Eddie Ladd
Gethin Rhys
Graham Davies
Guto Hughes
Heledd Tomos
Judith Griffith
Kathryn Jones
Manon Elin
Rhys Jones
Richard Hughes
Richard Lawson
Ruth Owen
Vanessa Bowen

Cynghorau lechyd Cymuned

Cyngor lechyd Cymuned
Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Cynghorau lechyd
Cymuned Cymru

Dienw

Bwrdd lechyd Lleol	4
Corff arall	1
Cyfarfod Cyhoeddus yn Stadiwm Liberty 26	
Cyfarfod Cyhoeddus yn y Galeri, Caernarfon 20	
Cynghorau lechyd Cymuned	1
Deiseb Cymdeithas yr Iaith	759
Ymddiriedolaeth y GIG	1

Menter Iaith Bangor
Prifysgol Caerdydd
Pwyllgor Optometrig Cymru
The Company Chemists Association
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
Wylcwm Street Surgery
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Bangor
Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Bangor

Cyrff Rheoleiddio

Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol
Cyngor Gofal Cymru (Gofal
Cymdeithasol Cymru)
Cyngor Optegol Prydain
Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a
Gofal
Yr Awdurdod Safonau
Proffesiynol ar gyfer Iechyd a
Gofal Cymdeithasol